**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorwyr | |
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); R Simmons (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Redwood (KPMG); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Owens | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 (3.2) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân – gofynion llywodraethu newydd – atgoffwyd yr Aelodau gan y DBST fod y Cyng. D Macrae, yn ogystal â'r Cyng. J R Skelland, y Cyng. B Dunn a'r Cyng. W T Owen, wedi ei henwebu i sefyll ar y Bwrdd Pensiwn Lleol fel y cefnogwyd gan yr ATA ar 15 Rhagfyr 2014.

3.2 (5.4) Gorsaf dân Glannau Dyfrdwy – cadarnhaodd y DBST fod y gwaith yn mynd rhagddo ac y dylai'r orsaf newydd fod yn barod erbyn yr hydref yn 2015.

3.3 (7.3) Safon Ffitrwydd ar gyfer Staff Gweithredol – i ymateb i bryderon yr aelodau am ddiffoddwyr tân hŷn yn gorfod gwneud yr un prawf ffitrwydd â diffoddwyr tân iau, esboniodd y PSTC Simmons fod yn rhaid i'r holl staff gweithredol o'r prif swyddogion i lawr wneud yr un prawf ffitrwydd y cytunir arno yn genedlaethol. Eleni dim ond un unigolyn a fethodd y prawf, a chafodd gymorth gan y cyd-gysylltydd ymarfer corff. Mae ymchwil helaeth wedi dangos mai prawf ffitrwydd cardio-anadlol yw'r prif brawf sydd angen ei wneud i sicrhau bod diffoddwr tân yn egnïol ac yn ddiogel ac yn medru gwneud y dyletswyddau angenrheidiol.

3.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ac y bydd yr aelodau'n cael cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ar waith GTAGC ym maes iechyd a ffitrwydd.**

4 DANGOSYDDION ARIANNOL, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

4.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi'r dangosyddion ariannol, strategaeth rheoli'r trysorlys, y strategaeth fuddsoddi a'r polisi darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer 2015/16 i'r aelodau. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau. Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adroddiad gyda chymorth cyflwyniad manwl, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

4.2 Nodwyd mai un o'r risgiau ar gyfer 2015/16 fydd trosi dwy o gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd yn ddeddfwriaeth y DU pan fydd achub banciau'r UE sy'n methu yn dod yn faich anghymesur ar fuddsoddwyr awdurdodau lleol, sydd heb eu diogelu. Mae'r *Bank Recovery and Resolution Directive* yn hyrwyddo buddiannau busnesau unigol a bychain sy'n dod dan Gynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol a chynlluniau Ewropeaidd tebyg, tra bo'r *Deposit Guarantee Schemes Directive,* sydd wedi ei ail-lunio, yn cynnwys cwmnïau mawr yn y cynlluniau hyn. Effaith cyfun y ddau newid yma yw gadael awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau ariannol (gan gynnwys cronfeydd pensiwn) fel yr unig uwch gredydwyr sy'n debygol o gael colledion mewn banc sy'n methu ar ôl Gorffennaf 2015. Rhoddwyd senarios posibl i'r aelodau o ran y modd y gallai hyn effeithio ar awdurdodau cyhoeddus.

4.3 Ychwanegwyd 'Repos' i'r rhestr o bartïon i gontract yn dilyn cyngor gan Ymgynghorwyr y Trysorlys er mwyn amrywio'r portffolio buddsoddiadau. Esboniodd Ms Forrest mai Repo yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio banc yn gwerthu rhai gwarannau i fuddsoddwr gyda dyddiad penodol i'w prynu'n ôl gyda llog; mae gwerth y gwarannau yn fwy na 100% o'r buddsoddiad arian parod (101% i 103%) a bydd yn parhau ar y lefel honno tan ddiwedd y cytundeb, felly os bydd y farchnad yn methu byddai'n rhaid i'r banc wneud taliad ychwanegol i'r Repo. Mae'r cyfraddau llog ar gyfer Repos fymryn yn uwch na'r llog ar adnau arian parod. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio Repos, mae buddsoddiadau'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael eu diogelu ar asedau ac felly maent yn rhydd o'r gweithdrefnau 'bail-in'. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth, i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, cyn argymell defnyddio Repos i'r Awdurdod Tân ac Achub.

4.4 Cyn pob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i'r Aelodau argymell i'r ATA beth yw'r polisi darpariaeth isafswm refeniw sy'n sicrhau bod elfen o'r gwariant cyfalaf cronedig bob blwyddyn yn cael ei dalu drwy ffi i'r refeniw. Sefydlwyd y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu gwariant cyfalaf gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:

- 4% o'r balans sy'n ddyledus o wariant cyfalaf a wariwyd ar dir ac adeiladau
- cerbydau, peiriannau a chyfarpar ar sail amcangyfrif o oes yr asedau.

4.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pedair elfen yn yr adroddiad, a'r argymhellion sydd ynddynt, ac argymell y rhain i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) rhestr o ddangosyddion ariannol fel sy'n ofynnol gan God Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol**

**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn o ran benthyciadau tymor byr a thymor hir ar gyfer 2014/15 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, yn ddibynnol ar gael rhagor o wybodaeth am Repos yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio;**

**(iii) y strategaeth i'w dilyn o ran buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**

**(iv) Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

5.1 Cyflwynwyd y strategaeth archwilio mewnol ar gyfer yr Awdurdod yn 2015-19 gan Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

5.2 O ran Asesiad Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16, mae meysydd risg sydd yn rhai categori 'A' yn rhai risg uchel sydd angen adolygiad blynyddol. Fodd bynnag, nid yw Archwilio Mewnol Conwy yn dymuno dyblygu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru gan fod ei gwaith archwilio perfformiad blynyddol yn cynnwys rheolaeth ariannol, rheoli perfformiad a threfniadau llywodraethu, ac mae ei archwiliad mewnol yn ymdrin â chywirdeb y datganiadau ariannol.

5.3 Defnyddir yr Asesiad Anghenion i lunio Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Conwy 2015/16, a bydd yn cael ei sefydlu mewn ymgynghoriad â'r DBST, a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2015.

5.4 **PENDERFYNWYD derbyn y strategaeth archwilio mewnol ar gyfer 2015–2019.**

6 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

6.1 Cyflwynwyd y llythyr archwilio blynyddol i'r aelodau. Cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau, a bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Gwnaed ymchwil i'r meysydd hyn fel rhan o'r gwaith asesu gwelliant, ac adroddir ynghylch unrhyw welliannau yn adroddiad gwella blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol i'w gyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

6.2 **PENDERFYNWYD derbyn y llythyr archwilio blynyddol, a nodi y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r adroddiad gwella blynyddol.**

POLISI AC ARFERION AILGYFLOGI

7.1 Rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad ar bolisi ac arferion yr Awdurdod mewn perthynas ag ailgyflogi, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn 2007.

7.2 Nodwyd bod ailgyflogi staff gweithredol o fewn GTAGC wedi cael ei sbarduno gan gyfundrefn dreth newydd ar gyfer pensiynau a gyflwynwyd gan lywodraeth y DU yn Ebrill 2006. Wedi hynny, cyhoeddwyd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân W-FRSC (06)12 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn argymell y dylai awdurdodau tân ac achub gael polisi neu y dylent adolygu polisïau presennol yn ymwneud ag ymddeoliad ac ailgyflogi diffoddwyr tân.

7.3 Cafodd yr aelodau wybod beth yw'r meini prawf cymhwysedd, a nodwyd bod yn rhaid i'r Awdurdod leihau unrhyw bensiwn sy'n daladwy i aelod sydd wedi ymddeol, a hynny er mwyn sicrhau nad yw ei gyflog ar ôl iddo gael ei ailgyflogi ynghyd â chyfradd flynyddol ei bensiwn, yn uwch na chyfradd flynyddol ei gyflog yn union cyn iddo ymddeol. Nid oes dyddiad terfyn ar gyfer y contractau ailgyflogi, a rhaid i'r unigolion fodloni'r un gofynion sy'n ddisgwyliedig gan unrhyw aelodau gweithredol eraill o'r staff. Nodwyd hefyd fod yn rhaid i unigolion gael eu hailgyflogi i rôl ar un lefel ag a oeddent cyn ymddeol. Prin iawn oedd yr unigolion a oedd wedi cael eu hailgyflogi ers 2010 pan fabwysiadwyd y strategaeth ariannol ddiwethaf, felly bach iawn oedd yr effaith ar ddyrchafu aelodau eraill o'r staff.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, a diolchodd yr aelodau i'r PSTC Simmons am y cyflwyniad.**